## Cylch Gorchwyl Pwyllgor:
## GRŴP GORUCHWYLIO PREVENT

Yn adrodd i: Gweithrediaeth y Brifysgol

Yn cwrdd: 3 gwaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Mehefin 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Mehefin 2022; ac i'w adolygu nesaf: Mehefin 2023*

<table>
<tr>
<td>Aelodau:<br><ul><li>Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr) (Cadeirydd)</li><li>Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd</li><li>Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol</li><li>Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth</li><li>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth</li><li>Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd</li><li>Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr</li><li>Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr</li><li>Pennaeth Cyfleusterau a Gweithrediadau Preswyl</li><li>Rheolwr Diogelwch</li><li>Un Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur</li><li>Aelod o'r staff academaidd</li><li>Rheolwr Datblygu Busnes</li><li>Un Rheolwr Cyfadran</li></ul>14 o aelodau.<br><br>Cworwm: 6 aelod.</td>
<td>Yn bresennol:<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol.<br><br>Rhoddir hawl i aelodau drefnu i ddirprwy fynychu cyfarfodydd unigol ar eu rhan, ar yr amod bod y dirprwy wedi'i drwytho'n ddigonol ac yn gallu cyfrannu at drafodaethau gyda'r awdurdod angenrheidiol.</td>
</tr>
</table>

Cylch gwaith:

Y Grŵp Goruchwylio Prevent sy'n gwneud y gwaith goruchwylio gweithredol ar rwymedigaethau'r Brifysgol o dan Ddeddf Gwrth-frawychiaeth a Diogelwch 2015 (a adwaenir hefyd fel "Dyletswydd Prevent") i roi sylw dyladwy i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i frawychiaeth. Mae'r Ddeddf yn dweud mai'r corff llywodraethu sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros gydymffurfio â'r rhwymedigaethau perthynol. Rhaid i'r Grŵp hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredin o'r perygl o radicaleiddio o fewn cymuned y Brifysgol, a monitro ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol mewn perthynas â'r Ddyletswydd Prevent.

---

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried y canlynol a'u hargymell i gael eu cymeradwyo gan Weithrediaeth y Brifysgol, neu gan bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol:

   a. Adroddiad Blynyddol y Brifysgol ar y Ddyletswydd Prevent, yn crynhoi sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Prevent, ac a gyflwynir yn y pen draw i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) drwy gyflwyniadau Datganiad Sicrhau Blynyddol.

   b. Cynllun Gweithredu ac Asesiad Risg y Brifysgol ynglŷn â'r Ddyletswydd Prevent.

c. Cylch Gorchwyl y Grŵp Goruchwylio Prevent, sydd i'w hadolygu o dro i dro.

2. Ystyried y canlynol, a bod â'r awdurdod i'w hadolygu a'u cymeradwyo ar ran Gweithrediaeth y Brifysgol:

    a. Dogfennau cyfarwyddyd sy'n ymwneud â threfniadau'r Brifysgol ynglŷn â'r Ddyletswydd Prevent.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth a chynghori Gweithrediaeth y Brifysgol, neu bwyllgor llywodraethu drwy Weithrediaeth y Brifysgol, ar y canlynol:

    a. Ymateb priodol i adborth a ddarperir gan CCAUC yn sgil cyflwyno Datganiadau Sicrhau Blynyddol y Brifysgol a/neu unrhyw ddigwyddiadau difrifol a newidiadau arwyddocaol i ddeunydd.
    b. Data ynglŷn â digwyddiadau hysbysadwy fel y'u diffinnir gan God Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid Barn.
    c. Anghenion a deunyddiau hyfforddi, gan gynnwys monitro cyfraddau cwblhau.
    d. Diweddariadau oddi wrth Fforwm Prevent AU Gogledd Cymru a grwpiau rhanddeiliad eraill.
    e. Gwelliannau angenrheidiol ym mholisïau neu weithdrefnau neu adolygiadau polisi'r Brifysgol, mewn perthynas â Chanllawiau ar y Ddyletswydd Prevent.
    f. Monitro'r defnydd a'r galw am Ofod Aml-Ffydd y Brifysgol a'r ddarpariaeth o Gaplaniaeth.

---

<u>Gweithredu</u>

Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn derbyn adroddiadau cyson fel y bo'n briodol ar weithgareddau'r Pwyllgor.